

Meini prawf ariannu:

Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Sir Fynwy

Darparu cymorth ariannol i unigolion o ardal Gwent (yn benodol, Sir Fynwy fel y bodolai yn 1956), sy'n ymgymryd â hyfforddiant neu addysg bellach/addysg uwch.

Y grantiau sydd ar gael

- Gall ymgeiswyr wneud cais am grantiau o rhwng hyd a £1,000.

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i unigolion allu cynllunio ar gyfer y dyfodol, ac y gall cael cyllid diogel roi'r hyder a'r sicrwydd i chi yn ystod eich astudiaethau addysgol.

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Sir Fynwy bellach yn cynnig cyfle i wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at 3 blynedd.

Who can apply?

- Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn preswyllo yn Sir Fynwy fel ag yr oedd yn 1956, hynny yw, yr Awdurdodau Lleol a ddaeth yn 'Gwent': Torfaen, Blaenau Gwent, Casnewydd a Sir Fynwy (yn rhannol neu'n gyfan).
- Bydd yn rhaid i ymgeiswyr fod wedi mynychu Ysgol Uwchradd yng Ngwent am o leiaf 2 flynedd
- Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn 25 oed neu'n iau.

Beth y gellir ei gyllido?

- Costau sy'n gysylltiedig â dechrau ar addysg bellach/addysg uwch, yn cynnwys costau cyfarpar, deunyddiau, teithio dramor, a ffioedd cyrsiau/arholiadau.
- Costau sy'n gysylltiedig â pharatoi i ddechrau ar grefft neu broffesiwn, yn cynnwys cyfarpar, deunyddiau a hyfforddiant.

Telir i ymgeiswyr llwyddiannus ar ôl dangos prawf eu bod wedi cofrestru ar y cwrs a ddatganwyd ganddynt.

Noder: Dyfarnir grantiau ond am gostau sydd i'w hachosi ar ôl i gais gael ei gyflwyno. Ni ellir rhoi grantiau'n ôl-weithredol, hynny yw, am weithgareddau sydd eisoes wedi digwydd.

Sut i wneud cais?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais ar lein sydd ar gael ar ein gwefan.

Please note:

- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau.
- Nid yw grantiau ar gael fel arfer ar gyfer codi arian neu i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig.